Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 1 MEHEFIN 2019 50c

# Comisiynu Robert Parry fel Cynorthwy-ydd Bugeiliol Dosbarth Lerpwl



*Seremoni'r Comisiynu ym Methel, Lerpwl*



*Y Gweinidog yn bendithio ei Gynorthwy-ydd Bugeiliol*



*Parchg Elfyn Richards, Ponciau, y pregethwr gwadd*

*Lluniau gan John G. Williams*



*Susan Parry a'r plant Ellis ac Anna a Dr D. B. Rees oedd yng ngofal y Comisiynu*

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 2

# Golygyddol Iaith yn brwydro am einioes - gan D. Ben Rees

Ffaith drist i agor y golygyddol: Wyddoch chwi fod un iaith yn diflannu bob pythefnos yn ein byd, un tafarn yn cau ym Mhrydain bob wythnos ac un capel neu eglwys yn cau ei ddrysau bob saith niwrnod yn y Deyrnas Unedig. Pe baem yn ychwanegu at hyn y difrod a wna dynol ryw i greaduriaid mud, i'r awyr a'r amgylchedd heb anghofio y treiswyr a'r terfysgwyr a gerdda strydoedd bron bob dinas yn ein byd, mi fyddai'r callaf ohonom ym dweud yn realistig, mae'r byd yn brysur ddarfod.

Y Prifardd Siôn Aled a anfonodd ataf wybodaeth am iaith o'r enw Haida y dydd o'r blaen. Nid oeddwn erioed wedi clywed am fodolaeth yr iaith hynafol hon sydd wedi goresgyn pob anhawster ar hyd y maith ganrifoedd, o leiaf ddeg mil o flynyddoedd. Erbyn heddiw mae'n stori wahanol, a pharatowyd ffilm i ddisgrifio argyfwng Haida gan Helen Haig-Brown a Gwaai Edenshaw sydd yn rhugl yn yr iaith. Enw'r ffilm ydyw *Edge of the Knife*. Mamgu Gwaai ydyw Diane Brown, un arall sydd yn siarad Haida, ac sydd yn chwarae rhan allweddol yn y ffilm.

Mae'r bobl sydd yn arddel Haida fel iaith bob dydd yn byw ar y darn tir, Haida Gwaii, tua 65 milltir o Orllewin Canada, dipyn o ffordd i fyny o ddinas hardd Vancouver.

Daeth y darn tir i feddiant imperialwyr Prydain yn 1853 ac fe ailenwyd y tir yn Ynysoedd y Frenhines Charlotte. Ni fu Prydeinwyr na'r dyn gwyn o Ewrop yn garedig o gwbl. Bu farw miloedd ar filoedd o'r trigolion trwy'r pla gwyn. Wrth roddi blanedi a dillad i'r trigolion y digwyddodd hynny. Lleihaodd y boblogaeth o ddeg mil i ddim ond 588 mewn amser byr. Erbyn heddiw, y mae 3,442 yn medru'r iaith ond dim ond rhyw hanner cant sydd yn gwbl rugl. Rheswm arall am hyn oedd y gorchymyn (dioddefodd y Cymry yr un fath) fod holl wersi'r ysgolion trwy gyfrwng y Saesneg. Curwyd hwy â chansen, fel y digwyddodd i fy nhad yn Ceredigion, am sibrwd yn iaith ei fam.

Y mae tair fersiwn o'r iaith, sef Haida a dwy dafodiaith. Siaredir un tafodiaith yn nhrefydd Skidegate a Massett yn Canada, tafodiaith arall yn nhref Nynaburg yn nhalaith Alaska, a'r Haida yn Haida Cwaii. Dyma rai ymadroddion o'r iaith Haida:

a) Gasanguu siingaay giidang – sef Sut mae'r tywydd?
b) Siing.gaay 'laa – Bore da.
c) Asang dang hll k̲ing gas ga – gweler chwi wedyn.

Gan fod y flwyddyn hon 2019 yn *International Year of Indigenous Languages*, da o beth yw ein bod ni yn tynnu sylw at yr ieithoedd sydd mewn gwir berygl. Onid ydym fel Cymry yn ffodus fod ein hiaith yn cael cefnogfaeth dda gan y Cynulliad a gan y dysgwyr a Chymry cefnogol sydd yn prynu llyfrau, recordiau, cylchgronau, gwylio S4C ac yn ddarllenwyr brwd i bapurau bro, fel *Yr Angor.*



*Dyn Haida o flaen tŷ traddodiadol*

Oherwydd y ffilm *Edge of the Knife* fe osodwyd yr iaith Haida ar gof a chadw, ac fe geir y sgript wedi ei gyhoeddi ar gyfer siaradwyr Haida. Ond y mae angen llawer mwy arnynt. Dylid cyfieithu un o'r efengylau i'r iaith, paratoi geiriadur safonol a llyfrau arbenigol ar gyfer dysgu'r iaith. Dylid pwyso ar yr awdurdodau i wario arian ar adfer ac adfywio Haida, ac yn wir, holl ieithoedd bychain y byd. Gellid dechrau yn nhalaith British Columbia sydd ag o leiaf 35 o ieithoedd lleiafrifol o fewn ei libart. Dim ond 172,520 o drigolion sydd yn byw yn British Columbia ond y mae dewis da o ieithoedd ar ei gwely angau yno. Yn wir o fewn Canada, sydd yn wlad aruthrol fawr, ceir 70 o ieithoedd bychain fel Haida, a daw cyfrifoldeb, mi gredaf, ar Lywodraeth Canada a'i Senedd yn Ottowa i gefnogi yr ieithoedd hyn. Efallai ei bod yn rhoddi cymorth-dal ond ni chlywais hynny. Gwn nad yw Llywodraeth Marcon yn Ffrainc yn poeni daten am ddyfodol na pharhad ein chwaer iaith, y Llydaweg sydd yn ddigon gwantan.

Dylem gofio o'r holl ieithoedd Celtaidd, chwech ohonynt i gyd, mai'r Gymraeg yw'r iaith fwyaf llewyrchus ac uchegeisiol. Er fod Llywdoraeth yn Nulyn ar gyfer yr Ynys Werdd. Nid yw'r Wyddeleg yn ennill tir, a thrist meddwl fod Senedd Stormont yng Ngogledd Iwerddon heb gyfarfod am ddwy flynedd oherwydd fod Plaid yr Unoliaethwyr caled (DUP) yn gwrthod cydnabod statws yr Iaith Wyddeleg. Nid yw honno yn berygl o gwbl yng Ngogledd Iwerddon. Esgus gwael, gwael ydyw hyn!!

Gwyddom nad yw'r Gaeleg yn meddu ar fwy na 80,000 mil o siaradwyr, Manaweg ychydig gannoedd, Cernyweg yr un fath, a Llydaweg ar y mwyaf dau gan mil. Mi fedrwch fynd drwy Lydaw yn hawdd heb glywed gair o'r iaith. Ni ddigwydd hynny yng Nghaernarfon na'r Bala na Aberaeron na Crymych i enwi y mannau sydd yn gyfarwydd i mi.



*Robert-Falcon Ouellette yn siarad Cree yn y Senedd*

Y mae cyfrifoldeb mawr ar ein gwleidyddion i hybu'r ieithoedd. Yng Nghymru da gweld gwleidyddion pob plaid yn dysgu siarad Cymraeg yn rhugl, fel Albert Owen, ym Môn, David Davies y Ceidwadwr ym Mynwy. Pa bryd tybed mae Kirsty Williams o'r Blaid Ryddfryfol (unig gynrychiolydd y blaid honno) yn mynd i ddilyn esiampl llu o aelodau y Cynulliad sydd yn haeddu gair o wrogaeth. Yn Senedd Canada, ceir Aelod Seneddol weddol ifanc o'r enw Robert-Falcon Ouellette, Aelod Seneddol dros etholaeth yn ninas Winnipeg sydd yn rhugl yn Saesneg ac yn iaith iaith frodorol, Cree. Siaradodd yr iaith honno ger bron yr holl aelodau yn y flwyddyn 2017. Dyna'r tro cyntaf i'r mwyafrif o'i gyd-wleidyddion glywed yr iaith Cree. Dywedodd y gwir fod gan bawb yr hawl gynhenid i siarad ei iaith gyntaf, neu yn wir ei ail iaith. Dylem ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar bob cyfle posibl, Byddaf yn cael gwared yn gyson ar alwadau ffôn diangenrhaid trwy siarad Cymraeg â hwy. Mae'n fwy caredig na rhoi'r ffôn i lawr ac yn gwneud aml un ohonynt ofyn: *What language is that?* Iaith orau'r byd. Iaith gynhenid *Yr Angor* ers deugain mlynedd. Gobeithio y mae felly y bydd hi i'r dyfodol, a diolch i bawb ohonoch am eich cynhaliaeth fel y medrwn wireddu hynny.

*YSGRIF GOFFA:*

# MARIAN LYONS (1932-2019)

## Pentref Knowsley, ger Lerpwl

Yn dawel yng nghwmni ei anwyliaid llithrodd yr annwyl Marian i'r byd tragwyddol ar bnawn Sul, 28 Ebrill a hithau yn 86 mlwydd oed. Trigai teulu Marian o'r ddwy ochr yng nghyffiniau Mynydd Caergybi, yn deuluoedd niferus ac yn hynod o gymeradwy yng ngolwg eu cyd fforddolion. Ei thad William Hughes yn gweithio yng ngorsaf rheilffordd Caergybi bob nos yn gofalu am y ceffylau rasus oedd yn mynd a dod o'r Iwerddon. Gofalai Susannah ei mam am y cartref, y tair ferch a'r teulu a'r wyrion oedd yn byw yn ymyl. Cartref cysurus a chymdogol, caredig a Christnogol. Dyna fagwraeth Marian, a gan fod ei thad (a'i dad yntau o'i flaen) yn flaenoriaid yng nghapel y Presbyteriaid Cymraeg Bethphage, Llaingoch, fe'i trwythwyd ym mywyd yr Ysgol Sul, yr oedfaon a'r ddarpariaeth a drefnwyd ar gyfer plant ac ieuenctid.

Dechreuodd y bartneriaeth ryfeddol rhyngddi hi a John Lyons wrth yr allor yn Eglwys y Plwyf Llanrhuddlad lle y cafodd John a'i chwaer Nellie ei magu yn y ffydd gyda Chymraes annwyl Elizabeth Jones a alwent yn Auntie Lizzie oedd yn byw yn 2 Chapel Street, Rhydwyn, Ynys Môn. Ifaciwis oedd John a Nellie o Hackney yn Llunain ac fe lwyddodd Auntie Lizzie, pentref Rhydwyn, Eglwys Llanrhuddlad ei gwneud yn Gymry glân gloyw. Arhosodd y ddau ym Môn a gadwodd John, ysgol Caergybi yn bymtheg oed a llwyddo yn wyrthiol o fewn byd yr Heddlu. Gwahoddwyd John yn dad bedydd i David, plentyn cyntaf ei chwaer, ac i gael cynrychiolydd ei dad, Cyril gwahoddwyd ei gyfneither Marian Hughes, Tŷ Lawr, Caergybi yn fam Bedydd. Dyma'r foment dyngedfennol. Wedi'r gwasanaeth, sgwrs a phaned aeth John a'r ferch landeg at ei gar. Bu'r ddau yn fân siarad yn y car a gadawodd ei gerbyd yng ngwaelod y Mynydd am fod y ffordd yn gul ac yntau newydd ddechrau dreifio ar ôl pasio ei brawf. Gwnaeth Marian argraff fawr arno, yn ddistaw fonheddig, yn Gymraes naturiol, yn gymeriad addfwyn a chynnes. Diwrnod trannoeth aeth yn unswydd i'r siop lle y gweithiai i'w gwahodd allan, a dyna ddechrau'r garwriaeth. Yn anffodus lleolid John yn y Bermo, ond manteisiodd ar bob cyfle i groesi'r bont i Fôn ac am Gaergybi.

Wedi wythnosau hyfryd penderfynwyd uno mewn priodas, ar ôl caniatad teulu Marian a'r Heddlu. Yr adeg honno roedd yn rhaid cael caniatad yr Heddlu er mwyn gwneud yn sicr fod y ddarpar wraig a'i theulu yn rispectabl.

Trefnwyd y dydd cofiadwy ar ddydd Mawrth, 2 Medi 1958 am fod siopau Caergybi yn cau am hanner dydd ac yn gyfle i lawer un ddod o'r dathliad. Diwrnod braf ac ewythr Marian yn dod a John yn ei Rolls Royce o Rhydwyn i Gaergybi. Daeth nain a thad John o Lundain, a'r teulu lle y lletyai yn y Bermo. Ar ôl y briodas gwledd yn sgwlrwm Capel Bethphage. I Lundain i ddathlu eu mis mêl. Ni fu Marian mor bell yn ei bywyd.



Trefnwyd y cartref cyntaf ar gyrion Llandudno, a ganwyd y ddwy ferch yn y cyfnod hwnnw, Susan Elizabeth, yn dilyn enw mam Marian ac Aunti Lizzie, ac yna Helen Marion. Yna cyfnod yng Nghaernarfon lle y daeth Marian a John o dan ddylanwad un o Weinidogion grymus ei gyfnod, y Parchedig John Roberts a chanwyd emyn 758 (*Caneuon Ffydd*) 'Pan fwyf yn unig lawer awr' yn Lerpwl a Rhydwyn yn oedfaon yr arwyl. Symud wedyn i Lerpwl yn 1966 a'r Parchedig William Jones (o annwyl goffadwriaeth) yn ei denu i Gapel Stanley Road, Bootle. Erbyn 1967 yr oeddynt wedi cael cartref ym mhentref Knowsley ac yno y ganwyd y mab, Mark Peter. Roeddynt yn deulu cyflawn, a Marian wrth ei bodd yn cyflawni dyletswyddau mam ofalus a phriod ymroddedig. Gosodwyd y seiliau. Roedd John yn awyddus i ofalu amdanynt fel nad oedd angen i Marian fynd allan i weithio. Nid oedd angen iddo ef wneud dim yn y cartref, digon i'r diwrnod oedd ei gyfrifoldebau, a dringodd, er pleser mawr i Marian, o ris i ris, o fyd cwnstabl i rhingyll ac yna Arolygydd a'i enw yn adnabyddus i gylch eang am y parodrwydd i gyflawni gweithredodd da.

Mwynhaodd Marian ei byd yn Knowsley. Bu John yng ngofal Clwb Ieuenctid a byddai Marian yn scrwbio a glanhau a gofalu am yr ystafell lle cynhelid y gweithgareddau. Y teulu oedd yn bwysig iddi ac yn ei pherthynas a'r Efengyl bu yn ddisgybl oedd yn meddu ar ffydd gref, yn ddisgybl oedd yn deall ystyr y gair ufuddod a gostyngeiddrwydd, ac yn gefnogol i bob gwasanaeth. John oedd y dyn cyhoeddus a hithau yn caru'r encilion. Cyfuniad oedd yn gweithio. Byddai'n teithio ar y bws i Prescot a St. Helens ac i Lerpwl, ac ar gael i'r plant oedd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Llawenydd oedd gweld pob un ohonynt yn cael ei derbyn i Brifysgiolion, Susan i wneud y gyfraith ym Mhrifysgol Nottingham, Helen i astudio mathemateg a Mark peirianeg sifil, y ddau ym Mhrifysgol Sheffield. Gwelodd hwy yn gadael y nyth, ac yn setlo'i lawr, a daeth y ddau yn daid a nain balch gyda phedwar o wyrion a bellach gorwyres.

Gofalodd ei phlant amdani yn y dair blynedd diwethaf. Wedi blynyddoedd o iechyd ardderchog ac erioed wedi bod mewn ysbyty heblaw i eni'r plant daeth salwch difrifol i'w hanes. Ni fu'n hawdd i'w phriod ond daliodd y ddau i fynychu'r moddion nid yn unig yn eglwys Bethania, Waterloo ond hefyd yng nghapel Bethel.

Dathlodd y ddau briodas diemwnt 2 Medi, 2018 gyda'r teulu ym Mhorthmeirion a gyda'i chyd aelodau yn Waterloo. Yn y blynyddoedd olaf bu ar aml i daith ar gwch, ond un o'r profiadau gorau a gafodd oedd y daith i Wlad yr Iesu yn y bererindod a drefnais yn y flwyddyn 2000.

Ei dymuniad oedd cael dychwelyd i Fôn a threfnwyd hynny trwy gwmni trefnwyr angladdau y Fali. Cafwyd y gwasanaeth cyntaf ar fore Gwener, 3 Mai yn eglwys Bethania, Waterloo o dan fy ngofal a chymerwyd rhan hefyd gan offeiriad eglwys Crist, y Parch Greg Cuff, y Parchedigion Eleri Edwards a Robert Parry. Chwaraewyd yr organ gan Mrs Rhiannon Liddell. Yna ar bnawn dydd Mawrth, 7 Mai am ddau o'r gloch yng nghapel y Bedyddwyr Rhydwyn, Môn cafwyd oedfa yn Gymraeg o dan fy ngofal, ac yn cael fy nghynorthwyo gan y Parchedig Trefor Lewis, Hen Golwyn ac un a fagwyd yng nghapel Bethphage, Llaingoch. Yn bresennol gwelid hefyd y Parchedigion Gerallt Ll. Evans (Llangristiolus), Emlyn Richards (Cemaes) ac R. E. Hughes (Nefyn).

Lluniodd ei phriod benillion yn Saesneg iddi ar ddydd y dathlu ar 2 Medi 2018. Dyma ddau o'r chwech pennill (y cyntaf a'r pumed)

*It's sixty years. Where have they gone?*
*If only I could sing a song - to Marian*
*Luck shone so bright on that day*
*Our love has never strayed away.*

*My Marian thanks for being you*
*A tremendous gift to 'dynolrywr'.*
*Creating my heaven here on earth,*
*Impossible to count your worth.*

Gwir y dywedodd un a wyddai yn well na heb ohonom am gymeriad ac anwyldeb yr annwyl Marian.

***D. Ben Rees***

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 4

*Newyddion o*
# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cawsom ein harwain gan ein Gweinidog ar ddau Sul yn niwedd Mawrth ac yn Ebrill a mawr yw ein diolch iddo am ei baratoad a'i ddyfalbarhad i ni yng Ngogledd Lerpwl. Da clywed fod Mrs Mena Edwards, Blundellsands yn llawenhau gyda'i wyres yng ngenedigaeth baban yn ddiweddar. Testun i godi calon. Trist yw clywed am waeledd Mrs Marian Lyons yr wythnosau diwethaf hyn. Bu yn yr ysbyty ond bellach caiff ofal mawr ei phriod, John, y mab Mark, a'r ddwy ferch Susan a Helen a'r ddarpariaeth gymunedol y Gwasanaeth Iechyd. Cafodd Dr. Rees gyfle ar Llun y Banc i offrymu gweddi ddwys wrth ei gwely a'i chlywed hithau yn cydweddïo Gweddi'r Arglwydd. Yr oedd grym yr Atgyfodiad yn y tir y penwythnos hwnnw a gwyddom a diolchwn am y cysur a dderbyniai y dyddiau hyn. Ni allwn ond diolch amdani, ei phersonoliaeth hyfryd, addfwynaf bosib, a'i theyrngarwch i waith a Theyrnas Iesu o'i magwraeth ar Ynys Môn. A chofiwn ei thaith annwyl yn y dyddiau anodd hyn arnynt.

Daeth y newydd i ni ar nos Sul, 28 Ebrill 2019 fod ein hannwyl chwaer Marian Lyons wedi huno'n dawel yn ei chartref gyda'i phriod John a'r plant, Susan, Helen a Mark yn gefn iddo yn awr yr ymddatod. Trefnwyd Gwasanaeth o Ddiolchgarwch iddi yn eglwys Bethania ar fore Gwener, 3 Mai ac yn Rhydwyn, Ynys Môn ar bnawn Mawrth 7 Mai. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn y brofedigaeth lem.




*Rhan o'r gynulleidfa yn Seion*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ychydig o nosweithiau cerddorol sydd ar gael i'n Cymdeithas, felly pleser arbennig oedd croesawu ein cyfeillion o Lerpwl, Cantorion Bethel, ar Ebrill 1af. Croesawyd ein cyfeillion gan y Barch. Glenys Wilkinson, llywydd y noson gan gyfeirio at y cysylltiad cynnes sydd rhyngddom fel Cymry y Glannau. Hyfryd oedd gweld gwynebau cyfarwydd a chyfarfod ffrindiau newydd.

Mr. Ifor Griffith yw arweinydd y côr a chlywsom ychydig o'r hanes amdanynt yn dod at ei gilydd a chreu'r côr cymysg. Mrs Margaret Anwyl Williams yw'r cyfeilydd yn ogystal a bod yn gantores galluog a phrofiadol. Roedd cynnwys y rhaglen yn amrywiol o ganeuon gwerin traddodiadol ac emynau hyd at glasuron, ac un gwaith hunan-gyfansoddiad gan Gareth, unawdydd gyda'r gitâr. Yr ail unawdydd oedd Fiona gyda'i chyflwyniad hyfryd o 'Dal i gredu'. Clywsom ddarlleniad teimladwy a meddylgar gan Norma yn ei detholiad o waith Manon Eames yn cofio Capel Celyn a Thryweryn – digwyddiad sy'n parhad yn graith ar wyneb ein tir.

Mwynhad pur oedd gwrando ar y côr a'r pedwarawd yn canu gydag arddeliad, teimlad, a gwir ddawn gerddorol. Yn ei diolchiadau, cyfeiriodd Glenys at bresenoldeb y Parch. Robert Parry yn ein mysg. Mae'r Gymdeithas yn ymfalchïo yn y ffaith mai yma y cyflawnodd ei gyhoeddiad cyntaf fel Cynorthwydd Gweindogaethol ar y Glannau. Dymunwn pob bendith arno ef a'i deulu yn y fenter newydd. Y Pwyllgor a ofalodd am y te, a diolchwn i swyddogion capel Seion am y croeso a'r gwres.

Ar Ebrill 15fed pleser oedd croesawu Mr Cledwyn Thomas atom ar ei drydedd ymweliad. Cawsom ganddo eisioes, hanesion diddorol am hanes Lerpwl tros y canrifoedd. Wedi ei addysgu yn Llanrwst, Wrecsam ac Abertawe, daeth yn ddarlithydd ar beirianwaith sifil ym Mhrifysgol Lerpwl. Yno y datblygodd ei ddiddordeb arbennig yn hanes y ddinas fel canolbwynt masnachol byd eang. Gwelsom am ddatblygiad y gwahanol ddociau o gynlluniau Thomas Steers yn 1716 dros ganrifoedd o brysurdeb unigryw a phwysig dros y byd hyd at y



*Côr Cantorion Bethel yn Seion*

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 5

newydd wedd sydd i'w gweld heddiw. Canolbwynt y ddarlith oedd hanes codi'r gorsafoedd rhybudd (*Signal Stations*) ar hyd yr arfordir rhwng Lerpwl a Chaergybi yn 1804, ar ddechrau rhyfeloedd Napoleon, i wylio'r glannau rhag ymosodiad.

Bu amryw o sustemau, fel fflagiau 'semaphore' i drosglwyddo gwybodaeth am leoliad a pherchenogaeth llongau yn y bae, cyflwr y gwynt, y llanw a'r tywydd. Erbyn 1824 adeiladwyd deuddeg o hwylbrennau gyda breichiau symudol i ddangos yr holl wybodaeth. Mae gan Cledwyn lyfr trwchus (Code Book) sy'n dangos ystyr pob arwydd o'r breichiau fel y gellid adnabod pob llong a'i lleoliad.

Eirwen oedd llywydd y noson a Mair a gynigiodd ein diolch am ddarlith diddorol ar destun hollol newydd i'r rhan fwyaf ohonom.

## Capel Seion, Laird Street, Penbedw

Ar y Sul cyntaf o'r mis daeth ein cyfaill, y Parchg. John Barnett, West Kirby atom i gynnal y gwasanaeth gan na allai y Parchg. Mark Morgan gadw ei gyhoeddiad. Yn ystod y prynhawn fe gyhoeddwyd fod Goronwy Humphreys, un o'r organyddion, wedi bod yn yr ysbyty ar ôl anafu wrth syrthio yn y tŷ. Fe'i cadwyd i mewn yn yr ysbyty er mwyn cael profion ond erbyn hyn mae yn teimlo'n well ac yn bwriadu dod yn ôl i'r Capel dechrau mis Mai. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

Ar yr ail Sul cawsom y cyfle i groesawu y Parchg. Ganon Idris Thomas, Deiniolen i'n plith am y tro cyntaf a cawsom wasanaeth arbennig iawn ganddo, yr holl emynau a'r bregeth seiliedig ar Sul y Blodau neu Sul y Palmwydd. Dyma Sul i'w gofio ac edrychwn ymlaen at ei ddyfodiad atom eto ym Mis Gorffennaf.

'Roedd Sul y Pasg y tro cyntaf i'r Parchg. Robert Parry ddod atom yn ei swydd newydd fel Cynorthwy-ydd Bugeiliol Dosbarth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fel arfer cawsom bregeth rymus a chofiadwy ganddo wrth iddo sôn am y bedd gwag a'r Atgyfodiad. Dymunwn hapusrwydd a mwynhad iddo yn ei swydd newydd ac edrychwn ymlaen at y Cyfarfod comisiynu ar Mai 4ydd.

Daeth Dr Eryl Davies, Llanfairpwll atom ar y Sul olaf o'r mis. Dyma'r trydydd tro inni gael ei gwmni fel pregethwr ac, fel arfer, cawsom fwynhad mawr wrth wrando ar ei neges.

Diolchwn yn ddiffuant iawn i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees am drefnu'r rhestr pregethwyr am y flwyddyn.

## Newyddion Manceinion a'r Cylch

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cawsom wasanaethau amrywiol yn y capeli a Pasg dedwydd ac edrychwn ymlaen at gael mwy o amrywiaeth byth yn y misoedd i ddod. Ar un Sul defnyddiwyd y gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd er mwyn i bawb, dynion a merched, werthfawrogi'r ddeunydd sydd mor diddorol a chyfoes. Cafwyd orig gofiadwy gyda dynion a merched yn cymryd rhan yn y darlleniadau a'r gweddïau wedi eu paratoi gan ferched Suriname. Roedd y sefyllfa yn eu gwlad yn glir trwy hanesion y gwragedd hen ac ifainc a oedd yn adrodd eu profiad. Cafwyd myfyrdod wedi ei sylfaenu ar ddameg y gwahoddedigion i'r briodas a oedd yn llawn o esgusodion. Her i bawb ohonom.

Sul arall, daeth ein cyfeillion o'r Eglwys Lutheraidd i'n harwain yn yr oedfa. Maent yn gwpl priod a'r ddau yn weinidogion ordeiniedig o'r Eglwys Lutheraidd yn yr Almaen. Mae ganddynt nifer o Eglwysi Almaeneg yn ardal Gogledd Lloegr gan gynnwys yr un yn Stretford, Manceinion. Maent yn ceisio bod yn rhan o weithgareddau 'Eglwysi ar y Cyd' yn yr ardal ac yn wastad yn ddiddorol yn eu cyfraniad. Dyma'r trydydd waith iddynt ddod i'r capel Cymraeg, yn Altrincham y tro hwn.




Roedd ganddynt gerdyn post gyda darlun sydd yn dangos arwyddair eu henwad at y flwyddyn yma – a'r adnod arno yw adnod 14 o Salm 34, 'Ceisia heddwch a'i ddilyn'. Roedd eu pregeth yn canolbwyntio ar y geiriau hyn ac yn tanlinellu bod haen o drais yng nghalon pawb a bod angen ceisio dilyn heddwch gyda'n hewyllys a'n hynni i gyd. Roeddwn yn hoffi eu cyflwyniad a rhoddwyd cerdyn i bob un o'r gynulleidfa er mwyn iddynt gofio'r adnod a'r rhybydd. Mae'r '*garden gnome*' yn beth cyfarwydd iawn yn yr Almaen ond y ffasiwn modern yw '*gnomes*' gydag ochor treisiol fel hwn a'i gwn. Y lliwiau ar y cerdyn yw pinc i ddweud yr ochor ddiniwed a'r gwyrdd i olygu gwyrdd gwisg y milwr. Roedd yn heriol i bawb yn sicr.






***Parchg. Robert Parry a Mair Rees Jones***

Mae'r Gymdeithas Gymraeg ym Manceinion wedi gorffen ei rhaglen tan yr hydref ond mae'r dysgwyr yn trefnu sesiwn 'Sgwrs a Pheint' bob mis mewn tafarn yng nghanol y dref i gael ymarfer yr iaith. Roedd y trefnydd Simon am inni sylweddoli nad oes, wrth gwrs dim rheidrwydd i yfed diod meddwol! Mae'r lleoliad yn ychydig yn bell i rai ohonom. Ond mae'r poster yn un lliwgar a'r nod yn werth chweil.

Cofiwn am ein gwlad y dyddiau hyn gyda mater Brexit yn dal angen ein gweddïau a'n gwleidyddion angen gras a doethineb oddi uchod.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Un o'r gymdeithas a fu'n siarad yn y cyfarfod olaf yn nechrau Ebrill sef yr Is-Lywydd, John Williams,ac roedd yn sôn am Eisteddfodau gyda chymorth lluniau a fideo. Dechreuodd gyda'r Eisteddfod gyntaf a ddisgrifir yn Brut y Tywysogion sef yr Eisteddfod yng Nghastell Aberteifi yn 1176 a drefnwyd gan yr Arglwydd Rhys. Wedyn bu'n sôn am wreiddiau yr Eisteddfod Genedlaethol a baratowyd gan Iolo Morganwg a Chymdeithas yn Gwyneddigion yn y ddeunawfed ganrif. Yn ystod ei anerchiad gwelsom luniau rhai o gadeiriau'r ennillwyr a chlywsom am hanes ambell i Eisteddfod ddadleuol. Canolbwyntiodd ar yr Eisteddfodau a gynhaliwyd y tu allan i Gymru sef yng Nhghaer, Llundain, Penbedw a Lerpwl. I orffen dangosodd gardiau post a gynhyrchwyd i gofio rhai Eisteddfodau a hysbysebion a ymddangosodd yn y Rhestr Testunau a Rhaglen y Dydd. Syndod i bawb oedd gweld hybyseb am werthiant gynnau yn Rhaglen y Dydd, Eisteddfod 1929 yma yn Lerpwl!

I orffen tymor y Gymdeithas cynhaliwyd y cyfarfod cyffredinol ar nos Fawrth 9fed, Ebrill. Roedd bawb yn gytun ein bod wedi cael tymor ardderchog a bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar ym mis Mai i drefnu rhaglen yr haf.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Rho inni'r nerth i dyfu'n hardd*
*Fel blodau'r maes a blodau'r ardd,*
*Yn deg o liw, yn gain o lun*
*Fel gwaith dy ddwylo Di dy hun.*

*Â thyner law, O! meithrin ni*
*Yn naear dy brydferthwch Di,*
*A danfon awel fwyn ddi-loes*
*I wasgar peraroglau'n hoes.*

Dyma ein dymuniad ni fel Rhys Nicholas ar ddechrau tymor y Gwanwyn.

Ar Nos Lun, 8 Ebrill treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni y Parchedig Robert Parry, a balch ydym o'i gyfraniad. Croesawyd ef gan ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees i gynulleidfa niferus yn y ganolfan fel un â doniau di-ri ac yn gaffaeliad mawr i ni ym Methel fel Cynorthwy-ydd bugeiliol iddo. Ymatebodd y bugail newydd yn gadarnhaol a'i frawddeg gyntaf oedd "Braint fawr yw cael bod yn un ohonoch". Dechreuodd bregethu yn 17 oed a'i fryd ar y weinidogaeth yr adeg honno. Derbyniodd radd mewn cerddoriaeth o Brifysgol Bangor, ac yna ymlaen i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Ei ofalaedd gyntaf yn 1996 oedd Canoldir Lloegr, sef Birmingham, Rugby, Wolverhampton a Cofentri a'r capeli Cymrage cyfagos a berthynai i Henaduriaeth Trefaldwyn Isa.

'Troeon Trwstan' oedd testun ei sgwrs i ni a chawsom hwyl yn gwrando arno yn sôn am gymeriadau doniol ac unigryw a ddaeth ar eu traws mewn gwahanol fannau. Diolchwyd iddo gan ein gweinidog am noson llawn hiwmor. Mae edrych ymlaen at ei ddyfodiad i'n plith.

Braint i ni fel eglwys oedd croesawu Côr Ieuenctid Mizoram o'r India atom bnawn Gwener, Ebril 12fed. Yn y bore bu iddynt ymweld â'r mannau hynny o'r ddinas â chysylltiad â'r Genhadaeth Dramor.

Dyna oedd testun sgwrs ein gweinidog iddynt yn y pnawn, enbydrwydd y fordaith gyntaf honno i'r Maes Cenhadol, ac yna olrhain hanes y cenhadon a fu'n gwasanaethu yn yr India a'u cyfraniad di-arbed i ledaeanu'r Efengyl. Y gwreiddiau yn ninas Lerpwl. Diolchwyd i Dr. Rees gan Van Lal Lawma a dyna ei eiriau –

*"Emotional lecture, bridge all the way from Wales – so grateful. Wales means the gospel, it is everything to us".*

Derbyniwyd baner o Mizoram yn rhodd i'r eglwys.

Paratowyd pryd o fwyd iddynt yn y ganolfan cyn y cyngerdd am 7.30 yn y capel.

Llywydd y noson oedd y Parch. Robert Parry. Hyfryd oedd gwrando ar gôr o bobl ifanc yn canu emynau gydag arddeliad, angerdd a gwres y cariad dwyfol yn eu mynegiant, a hynny mewn tair iaith. Gwefreiddiol oedd gwrando arnynt yn




**Dr. Ben a roddodd ddarlith o awr ar wreiddiau'r Genhadaeth yn Lerpwl a'r India**



***Rhai o swyddogion y Gymdeithas Lenyddol: o'r chwith i'r dde – Gwenfyl Bain a Lilian Coulthard (Ysgrifenyddion Lluniaeth), Nan H. Parry (Is-lywydd) a Carys Jones (Ysg. Lluniaeth) yng nghyfarfod olaf y Gymdeithas ar 15 Ebrill.***

canu ‘Calon Lân’ a ‘Diolch’ a phob gair yn glir fel y grisial. Roedd canmoliaeth mawr iddynt.

Nos Lun, 15fed o Ebrill o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol amser o’Fyfyrdod ar y Pasg’ gan Dr. Pat Williams. Bu paratoad trylwyr ar ein cyfer eleni eto. Cawsom eglurhad ganddi ar y cychwyn paham mae dyddiad y Pasg yn newid yn flynyddol.

‘Mae ar y Sul cyntaf ar ôl y lleuad llawn cyntaf, neu ar ôl y cyhydedd gwanwynol’.

Gwelsom ar y sgrin baentiadau o orielau ar draws y byd yn cyfleu i ni orfoledd y Groes, gan gynnwys un o Grist yn yr anialwch, mynediad Crist i Jerusalem, Puro’r Deml, Swper yn nhŷ Seimon y Pharisead, Y Swper Olaf, Dioddefaint yn yr ardd, Y Goron Ddrain, Y Croeshoelio, Mair yn eneinio traed yr Iesu ac yn olaf y Crist atgyfodedig.

Eglurodd Dr. Pat i ni yn fanwl arwyddocad y darluniau hyn.

Bu cyfraniad gwerthfawr o emynau’r Pasg gan Gantorion Bethel o dan arweiniad Mr. Ifor Griffith a chyfeiliant Margaret Anwyl Williams a hyn yn cyfannu ein paratoad at yr Ŵyl Sanctaidd hon. Diolchwyd iddynt oll gan ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, a chanwyd emyn ‘Dan fy fendith wrth ymadael y dymunem, Arglwydd fod’ a bu hi yn noson wir fendithiol ar drothwy’r Pasg.

Y Parchedig Robert Parry oedd yn ein gwasanaethu ar Sul y Pasg a daeth cynulleidfa gref ynghyd.

Anfonwn ein cofion annwyl fel Eglwys at yr aelodau hynny sy’n methu mynychu’r oedfaon fel cynt oherwydd amryfal amgylchiadau. Meddyliwn yn arbennig a’n dymuniadau gorau i Mrs Lilian Coulthard, Aigburth ar ôl syrthio yn ei chartref a thorri ei chlun, ac ar hyn o bryd yn yr ysbyty Frenhinol, Lerpwl. Brysiwch wella Lilian a chymerwch ofal.


*Myfyrdod ar y Pasg*

Cysylltwch â’r
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
‘ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL’
dbenrees@gmail.com

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o’r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 8

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mehefin 2019** erbyn bore Sadwrn, 1 Mehefin, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net

- **Rhifyn Awst/Medi 2019 –** erbyn Llun, 1 Gorffennaf, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar 1 Gorffennaf, 2019.

- **Rhifyn Hydref 2019** – erbyn Llun, 9 Medi i 53, Ox Lane, Harpenden, Herts. AL5 4PH (NB)

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf, 2019.***

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

# GŴYL DATHLU YR ANGOR YN DDEUGAIN OED (1979-2019)

**Penwythnos 20 a 21 Gorffennaf, 2019**
**yng Nghanolfan a Chapel Bethel, Heathfield Road / Auckland Road, Lerpwl**

## SADWRN, 20 GORFFENNAF 2019

Bydd yr adeilad yn cael ei agor am 10.00 o'r gloch bore Sadwrn a Sul.

<u>Sesiwn Cyntaf</u> (10.30 i 11.20) **Sgwrs gan Dylan Jones o'r BBC ar Gyfathrebu y Deugain Mlynedd Diwethaf.**
Llywydd: Roderick Owen (*Trysorydd Yr Angor*)
11.20 - 11.55 – Toriad a chyfle i gael paned a sgwrs
**<u>Ail Sesiwn</u>** (11.55 i 1 o'r gloch). Llywydd: Elwyn Evans
Rhan gyntaf gan y Dr. D. Ben Rees, *'Profiadau y Golygydd o 1979 i 2019'* ac i ddilyn cyflwyniad power point gan Dr. John G. Williams, Cadeirydd *Yr Angor* ar luniau a chyflwyniadau y papur bro.
**<u>Cinio</u>** (1 hyd 2.15 o'r gloch) – Digon o ddewis o fewn can llath i'r Ganolfan.

## CYNGERDD Y PNAWN o 2.30 i 4 o'r gloch

***Arweinydd: Y Parchedig Robert Parry.***
***Llywydd: Parchedig Mike McGurk, Archddiacon Lerpwl***
**Artistiaid:**
**Robin Huw Bowen, Capel Seion, Ceredigion (Telynor) a Côr Bara Brith o Ynys Môn.**
Pris tocyn am y bore a phnawn: £10. Gellir archebu tocynnau oddi wrth Beryl Williams (0151) 722 1092.

**Nos Sadwrn, 20 Gorffennaf yn Ystafell Fwyta, Clwb Golff Woolton, Lerpwl am 7.30 o'r gloch**
Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees. Siaradwr: **Dr. Huw Edwards, BBC, Llundain**
*Lawnsio'r gyfrol Gymraeg, copiau meddal £10, copiau caled £15, tudalennau 425 o leiaf.*
*Cyflwynir copi i'r Golygydd a gwahoddedigion gan Gadeirydd Yr Angor, Dr. John G. Williams.*
*Bwriedir llofnodi copïau ar derfyn y noson. Pris y cinio £25. Archebwch y tocynnau.*

## SUL, 21 GORFFENNAF 2019

**Oedfa'r Bore ym Methel, Heathfield Road am 10.30.**
**Darperir cinio am 12 o'r gloch cyn y Gymanfa.**
**Cymanfa Ganu am 2 o'r gloch – Côr y Ffin - Arweinydd: Geraint Roberts**

*Dewch yn llu i'r Ŵyl Unigryw Hon. Byddwch ar eich ennill. Trefnir yr Ŵyl gan Bwyllgor yr Angor mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Merswy.*


# LLONGYFARCH BLAENORIAID AM EU GWASANAETH

***Yn ystod Cymdeithasfa'r Gogledd yn Eglwys unedig Rhos y Gad, Llanfair PG fe anrhydeddwyd dau flaenor gyda chysylltiad â Manceinion ond sydd bellach yn byw ym Môn am eu gwaith sef William Huw Jones (40 mlynedd) a Walter Glyn Davies (50 mlynedd). Llongyfarchiadau a phob bendith i'r ddau ohonynt.***



***W. H. Jones a W. Glyn Davies wedi derbyn y llongyfarchiadau***

# CORNEL Y TRYSORYDD



**MEHEFIN 2019**

| | |
|---|---|
| Mr Henry Pearson, Heswall | £10.00 |
| Cantorion Bethel, Lerpwl | £40.00 |
| Mr David Williams, Langford | £11.00 |
| Mrs. Menai Roberts, Newcastle | £25.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall | £15.00 |
| Parch. John Morris (Er cof), Llanddaniel Fab | £30.00 |
| Mrs Lilian Coulthard, Aigburth | £25.00 |
| Rhodd Capel Seion, Penbedw | £50.00 |
| Mrs Morfydd Roberts, Abergele | £35.00 |
| Mrs Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |

**Cyfanswm £271.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## O FYD TELEDU

## *Canmol rhaglen Deledu ar ddewrder John Wyn Jones, Abertawe*

Ar Nos Sul, 28 Ebrill, 2019 gwelsom ar S4C raglen gofiadwy iawn gan ein cyfaill John Wyn, un o Gymry Lerpwl, mab i'r annwyl Glenys a William Jones, Meldrum Road, Wavertree. Gwyddom i John golli ei lais oherwydd y driniaeth fawr a gafodd o glefyd cancr, triniaeth ddwys a'i gadawodd heb lais. Trwy dechnoleg modern llwyddodd i fedru siarad ond heb ei lais ei hun.

Cnewyllyn y rhaglen oedd ymgais cyfeillion o Brifysgol Bangor ac o'r Gwasanaeth Iechyd i roddi iddo ei 'lais ei hun', ac yn rhyfeddol iawn dyna fu'r canlyniad gwyrthiol. Digwyddodd y wyrth honno oherwydd i'r arbenigwyr gyfuno llais John o fideos a rhaglenni ynghyd â llais ei frawd hŷn Dafydd, a chefnogaeth ddi-ildio ei briod Nan, 'angyles' fel y galwodd John hi.

Braint fawr a gefais oedd cymeryd rhan ym mhriodas y ddau a braf oedd ei gweld Awst diwethaf yng Nghaerdydd adeg yr Eisteddfod. Rhoddodd y rhaglen gysur mawr i ni'r gwylwyr, ac yn bersonol, dyma'r hyn a lanwodd yr awr gydag atgofion melys.

i) Gweld John a Dafydd y tu allan i'r hen gartref yn Meldrum Road, Lerpwl, cartref a fu fel ail gartref inni yn nyddiau ei rhieni, Glenys o'r Wladfa a'r anfarwol Rhingyll William Jones.

ii) Ei gweld hwy ym Mharc Goodison yn gwylio Everton, tîm John o'i blentyndod, tra bod Dafydd yn cefnogi Lerpwl.

iii) Gweld cryfder ffydd John, ef a'i briod yn addoli yng Nghapel y Drindod, Biwmares a'i hoffter o dôn Tyddewi ar emyn mawr Pantycelyn 'Mi dafla'n maich'.

iv) Ei bartneriaeth gref annwyl, ef a Nan. Heb Nan byddai'n anodd arno, ond gyda hi mae'n medru gwenu, siarad fel pwll y môr, ac yn garedig ei ysbryd at bawb ohonom.

Cyfarchion mawr i'r ddau ohonynt a hwythau wedi symud i fyw yn Abertawe a'r teulu yng Nghaerdydd. Braint i'r *Angor* yw cydnabod y sglein, y neges, a phortread o'r gŵr dewr a anwyd yn ein plith yn Lerpwl

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 10

# GWILYM HIRAETHOG FEL DARLITHYDD
## gan D. Ben Rees

Os oes gair ar gael i gyfleu crefydd Oes Fictoria mae'r gair hwnnw yw'r gair brwdfrydedd neu enthiwstiaeth. Nid oedd pall ar y cynllunio a'r trefnu ar yr adeiladu a'r cyhoeddi – a daeth Cymanfaoedd pregethu yn atyniad i'r miloedd. Gorseddwyd crefydd fel y prif eitem ar agenda dwy ran o dair o'r boblogaeth. Nid oedd neb yn dianc yn gyfangwbl o ddylanwad llan a chapel ac os mai simsan ac arwynebol oedd y cysylltiad – eto ni ellir gwadu am eiliad nad oedd y cysylltiad yn bod. Yr oedd y rhelyw o boblogaeth Cymru erbyn diwedd Oes Fictoria yn barod i gydnabod gwerth y Beibl a'r angen am Ysgol Sul, ac yn meddu ar barch tuag at allanolion crefydd – fel cadwraeth Dydd yr Arglwydd. Fel ag y dywedodd y Dr. R. Tudur Jones, yr oedd bod yn Gymro a bod yn Gristion o fewn trwch blewyn yr un peth erbyn 1890. A rhydd ddigon o enghreifftiau i gadarnhau ei osodiad.

Yr oedd Cymru fel pob rhan arall o' r Deyrnas Unedig wedi cael ei thraws-newid gyda'r diwydiannau trwm – diwydiant glo, dur, alcam, llechi. Cynyddodd poblogaeth cymoedd De Cymru ac ardaloedd y chwareli yn Arfon a Meirionnydd. Daeth mewnfudwyr i'r diwydiannau a gadawodd llawer o'r rhain a'i disgynyddion eu dylanwad yn drwm maes o law. Ond nid oedd hynny yn amlwg iawn yn niwedd teyrnasiad Oes Fictoria. Yn y degawd ar ôl hynny y digwyddodd y chwyldro deallusol ym myd gwleidyddiaeth, ac y symudodd y brwdfrydedd heintus i gylchoedd eraill ar wahan i'r cylch crefyddol.

Ond, yn Oes Fictoria, crefydd oedd bia'r brwdfrydedd, a hoffwn drafod hyn gydag enghreifftiau o fyd y ddarlith, ac yn arbennig cyfraniad y darlithydfdf nodedig cyntaf o blith y Cymry.

I Oes Fictoria y perthyn y ddarlith, a thad y ddarlith Gymraeg oedd Parchedig William Rees, ('Gwilym Hiraethog' 1802-1883). **Traddodwyd y Ddarlith Cyhoeddus gyntaf ar nos Fercher, Tachwedd 25, 1846, yn y Concert Hall, Lord Nelson Street, Lerpwl. Cyhoeddwyd poster a gwerthwyd tri math o docynnau – 3 ceiniog yn y llawr, 6 ceiniog i'r oriel a swllt i'r eisteddleoedd gorau.** Dewisiwyd gŵr amlwg ym mywyd crefyddol Cymraeg y Ddinas, David Davies, Paradise Street, yn Gadeirydd. A dyna yw'r drefn o hyd – yr **ingredients**, ond y mae un peth i'w gofio, sef y testun. Dewisiodd Gwilym Hiraethog destun a digon o sgôp iddo, sef, William Williams o Bantycelyn – dewisodd destun a fyddai roddi iddo gyfle i ennill ei wrandawyr gan bod emynau Pantycelyn wedi ennill eu plwy ym mhlith cynulleidafoedd o Gymry erbyn 1846. Ac wrth ddarllen ei ddarlith gwelir iddo ddefnyddio holl dechneg y darlithydd poblogaidd – sef, gwau'r hanes am y Perganiedydd, cyflwyno elfen o feirniadaeth am yr esgeuluso a fu ar ei hanes a chanmol y rhai a fu wrthi fel Thomas Charles o'r Bala i ddiogelu'r hanes, ac yna defnyddio yn rhydd ac yn rhwydd y toreth emynau oedd ar gael o'r emynydd.



***Gwilym Hiraethog***

Cymharodd Bantycelyn gyda chewri eraill fel John Milton a dangosodd y nodweddion oedd yn perthyn i'r ddau. Beirniadodd rhai o ddiffygion emynau Pantycelyn – yn arbennig ei ddefnydd o eiriau estronol - bastardiaid o eiriau - fel *ffitio*, *resolvo, presento*. Dyma y patrwm o ddarlith. Yr oedd yn gyforiog o wybodaeth wedi i wisgo mewn arddull goeth. 'Roedd y darlithydd yn parchu deallusrwydd ei wrandawyr wrth ymgodymu â gwaith John Milton a'i gymharu â Phantycelyn.


Y rheswm am hyn oedd dyrchafu Pantycelyn a'i osod ar yr un tir a mawrion cenedloedd eraill. Defnyddiodd Hiraethog ei holl ddoniau ei hun i glensio'r ddadl o fawredd y Perganiedydd a thrwy hynny dyrchafu llenyddiaeth ac emynyddiaeth Cymraeg. Dyma eiriau Eleazer Roberts a glywodd y ddarlith.

*"Y mae Hymnau Williams wedi bod yn annwyl gennyf byth er y noson hono. Yr oedd clywed Hiraethog yn darllen rhai ohonynt yn dreat o'r radd uchaf."* Ac mae'n siwr bod yr un peth wedi digwydd i eraill – pobl ifainc fel Eleazer Roberts a phobl hŷn ac yr oedd brwdfrydedd hefyd yn angenrheidiol – brwdfrydedd dros y gwrthrych neu'r testun ac wrth gyflwyno'r deunydd.

Efallai bod hynny yn fwy amlwg o lawer yn rhai o ddarlithiau eraill Gwilym Hiraethog. Oherwydd unwaith y cydiodd



y ddarlith fel cyfrwng dysg a diwylliant crefydd ac adloniant ym mywyd crefyddol Cymru yr oedd hi'n anorfod y byddai galw am y darlithydd i ddod ar dro arall. Ni ellid traddodi'r un darlith ddwywaith yn yr un cylch. Yr oedd yn rhaid meddwl am destunau eraill – testunau a fyddai yn ehangu gorwelion y gynulleidfa neu destunau a fyddai 'n dyrchafu y traddodiad cref'yddol neu' r traddodiad Cymraeg. Y mae'n ddiddorol astudio'r testunau a oedd ym *mhrief-case* Gwilym Hiraethog. Dyma nhw – *Seryddiaeth* a darlithiau ar bynciau'r Dydd, fel *Heddwch*. Er fod ei frawd, Henry Rees, yn cyfreithloni Rhyfel Crimea eto yr oedd William Rees yn ddigon mentrus i ddarlithio yn y Concert Hall ar '*Y Rhyfel' [hynny yw Rhyfel Crimea] ar bwy mae' r bai?* Gwnaeth ei ddarlith les mawr ar y pryd yn ôl yr heddychwr Eleazer Roberts, ac "yr oedd" meddai, "yn gofyn cryn wroldeb i'w thraddodi."



***William Williams, Pantycelyn***

Ond dyn brwdfrydig oedd Gwilym Hiraethog - nid dyn ofnus ond gŵr yn meddu ar argyhoeddiadau cryfion ac yn barod i ddefnyddio cyfrwng y ddarlith i ledaenu syniadau ar faterion newydd iawn yn y Gymraeg fel Seryddiaeth, ac i ledaenu a hau'r had i syniadau ar heddwch a chyfiawnder ac ar egwyddorion Rhyddfrydiaeth. Dyma barn Eleazer Roberts unwaith eto:

*"Am ei ddarlithiau, gwleidyddol, yr oeddent yn addysgiadol, yn ddigrifol a chynhyrfol, a gwnaethant fwy i ledaenu Rhyddfrydiaeth ym mysg y Cymry nag y mae neb yn gallu disgrifio."*

Dweud go fawr ond yn ddigon teg. Ac nid dyn oedd Gwilym Hiraethog a fyddai'n traddodi darlith heb yr awydd i ennill pobl. Pwrpas ennill y gwrandawr ganddo yn y rhan fwyaf oedd ei ddarlithiau ac nid ei diddori. Ei gwneud hwy yn Gymry brwdfrydig, ac yn radicaliaid brwdfrydig, ac yn Gristnogion fwy brwdfrydig yn hytrach na'u suo i fwynhad diweithred. Ceir enghraifft o hyn yn gynnar iawn yn ei hanes fel darlithydd yn ôl ei gofiannwyr. Addawodd Dr. William Rees ddod i ddarlithio ar Williams Pantycelyn i ardal yng Ngogledd Cymru. Trefnwyd yn ofalus – llogwyd yr adeilad mwyaf yn y cylch, gwerthwyd y tocynnau, ac aethpwyd a cherbyd i'r orsaf y rheilffordd i'w gyrchu. A'i gyfarchiad cyntaf oedd "Nid wyf yn meddwl rhoddi Pantycelyn i chwi heno." Aeth y cyrchwyr yn fud ac i brotestio mai Pantycelyn oedd y testun. Nid oedd modd ei ddarbwyllo am ei fod wedi cael ei danio gan destun gwahanol a llawer mwy cyfoes, sef, *Chwyldroadau 1848*. A dalith frwdfrydig oedd y ddarlith honno fel y cyfaddefodd ei gofiannwyr gan ychwanegu

*"Yr oedd mor hyddysg yn hanes Chwyldroadau Ewrop ag yr ydoedd yn hanes ei gydwladwr o Bantycelyn."*

Yr oedd yn amlwg mai Darlithydd a gawsai ei gyffroi drwyddo oedd yr hwn a elwid yn Dad y Ddarlith Gymraeg a bu ei gyfraniad yn fawr i'r pulpud Cymraeg. Casglodd gannoedd o bunoedd tuag at ddileu dyledion ar gapeli a theithiodd Gymru ben baladr gyda'i ddarlithiau. Dyma ymgorfforiad penigamp o'r brwdfrydedd Fictoraidd a welwyd yng nghrefydd Cymru Lerpwl a Chymru gyfan.

# Ceiriog yn cyfarch Aelod Seneddol, John Roberts, Hope Street

Pan etholwyd John Roberts, y dirwestwr mawr, yn Aelod Seneddol dros y Rhyddfrydwyr yn etholaeth Bwrdeisdref y Fflint, anfonodd y bardd Ceiriog gerdd 6 pennill iddo o dan y testun od 'Mae Cwrw yn Gryfach na Thê'. Dyma'r pedwerydd pennill:

*Mae'r bobl fu'n treio pregethu,*
*Fu'n gwneuthur y werin yn sarn,*
*Yn gweled eu bod wedi methu*
*Y ffordd i gyfiawnder a barn;*
*John Roberts! – caed digon ar hyny*
*Roedd hi'n bryd i bob lol fyn'd i'w le*
*Twt! paid bod yn ffwl – yf i fyny!*
*Mae cwrw yn gryfach na thê!*

A'r pennill nesaf, y pumed, yn dweud ymhellach

*Yf etto, a phaid bod yn wirion,*
*Os wyt yn awr yn M.P.,*
*Cawn gysgu mewn gwely-pluf-hirion*
*Bydd hyny'n beth meuthyn i ti;*
*Mae'r lleuad yn fain fel myfinnau,*
*Un waith yn y mis mae hi'n dlos;*
*Yn llawn wyf fi'n feddwl – tra ninnau*
*Yn llawnion, John Roberts, bob nos!*

## AT EICH SYLW


Gofynnaf yn garedig i chi gysylltu'n uniongyrchol gyda mi, Cadeirydd Y Pwyllgor os oes yna gŵyn, ymholiad neu unrhyw sylw i'w wneud ynglŷn â chynnwys *Yr Angor* – bydd hyn yn sicrhau fod pobl sylw yn cael ei drin yn gyflym.

Diolch yn fawr iawn.

**John G. Williams**
**0151 722 1092**

***Nid yw'r bwrdd golygyddol Yr Angor o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur.***

***Os bydd llun neu erthygl wedi ymddangos mewn unrhyw bapur bro neu gylchgrawn arall ni fydd Yr Angor o reidrwydd yn ei ddefnyddio***




***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

Mehefin 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 14:04 Page 12

# Côr Mizoram yn Lerpwl, Ebrill 11 a 12, 2019



*Y Côr a thri o'r gwahoddedigion*




*Trefnydd ac arweinydd y daith – Parchedig Nan Powell-Davies*



*Dr. Rees yn cyflwyno Ted Clement-Evans a roddodd i'r Côr yr holl lyfrynnau a'r casetiau o emynau Cymraeg*



*Van Lal Lawma yn cyflwyno'r faner*



*Parchedig Brian Matthews, Wrecsam, Llywydd yr enwad*



*Y bechgyn yn mwynhau'r danteithion*



*Cyflwynodd Dr. Rees rodd i bob un a gweler hwy yn bodio'r cyfrolau*



*Y merched a'i lleisiau cyfoethog*